Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

18 December 2024

Dear Parents and Guardians,

As you are aware, our four primary schools in the Cathays area will be going through significant change next year, which will involve relocating schools into new buildings. This will ultimately lead to much better provision for our children and children yet to be born in our communities. There is some work to be done to prepare for such momentous moves and it is of paramount importance to us that children's education and safety are not compromised. As Head Teachers and Chairs of Governors of all of the affected schools, we have decided that a co-ordinated approach would be the most effective in these circumstances.

**The children's last day of term this academic year will be Tuesday 15th July 2025.**

We will then be able to focus on packing up each of our schools from 16th July. We estimate it will take at least 3 full days to pack up and clean down in Allensbank, St Monica's and Ysgol Mynydd Bychan. The staff in Gladstone will also need to pack up several very large areas and departments in readiness for moving across into additional buildings. The Summer break will include some building projects which can only be started once children (and staff) are not on site for an extended period. The earlier closure will enable that work to commence.

Once the planned summer building works have been completed, furniture and resources can be moved into their rightful places. All health and safety policies will need to be reviewed and possibly re-written, to consider new ways of moving around the buildings. All staff will need to be made aware of all of these changes, for example to ensure safe evacuation of the building. We anticipate this to take at least a week into the new September term.

**We will be reopening to pupils on Tuesday 9th September 2025.**

As we are sure you can imagine, moving school locations and ensuring that all who work and learn in them are safe is a very large task, especially when it involves the collaboration and cooperation of four school teams, the Local Authority and various building contractors. If our position should alter due to changes or delays in health and safety works, we will inform you at the very earliest opportunity. We anticipate that any additional changes to these time frames would be site specific and are unlikely to impact on all of our schools at the same time.

Yours sincerely,

<table>
<tr><td colspan="2">P Shipton-Jones</td><td>A Cuthbert</td><td>G Lloyd</td></tr>
<tr><td>Interim Head Teacher<br>Allensbank<br>Primary School</td><td>Head Teacher<br>Gladstone<br>Primary School</td><td>Head Teacher<br>St Monica's CW<br>Primary School</td><td>Head Teacher<br>Ysgol Mynydd Bychan</td></tr>
<tr><td>A Bolton<br>Chair of Governors</td><td>S Crosbie<br>Chair of Governors</td><td>C Prosser<br>Chair of Governors</td><td>J Williams<br>Chair of Governors</td></tr>
<tr><td colspan="2">C Weaver<br>Interim Chair of Governors of the new school</td><td></td><td></td></tr>
</table>

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

18 Rhagfyr 2024

Annwyl Rieni a Gwarcheidwaid,

Fel y gwyddoch, bydd ein pedair ysgol gynradd yn ardal Cathays yn destun newid sylweddol y flwyddyn nesaf, a fydd yn golygu symud ysgolion i adeiladau newydd. Yn y pen draw, bydd hyn yn arwain at ddarpariaeth llawer gwell i'n plant a'r plant heb eu geni eto yn ein cymunedau. Mae rhywfaint o waith i'w wneud i baratoi ar gyfer symudiadau mor fawr ac mae'n hollbwysig i ni nad yw addysg a diogelwch y plant yn cael eu peryglu. Fel Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr holl ysgolion dan sylw, rydym wedi penderfynu mai dull cydgysylltiedig fyddai fwyaf effeithiol o dan yr amgylchiadau hyn.

**Diwrnod olaf y tymor i'r plant y flwyddyn academaidd hon fydd dydd Mawrth 15 Gorffennaf 2025.**

Yna byddwn yn gallu canolbwyntio ar bacio pob un o'n hysgolion o 16 Gorffennaf. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn cymryd o leiaf 3 diwrnod llawn i bacio a glanhau yn Allensbank, Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan. Bydd angen i'r staff yn Gladstone bacio nifer o ardaloedd ac adrannau mawr iawn hefyd yn barod i symud draw i adeiladau ychwanegol. Bydd gwyliau'r haf yn cynnwys rhai prosiectau adeiladu y gellir ond eu dechrau pan nad oes plant (a staff) ar y safle am gyfnod estynedig. Bydd cau'r ysgol yn gynt yn galluogi'r gwaith hwnnw i ddechrau.

Pan fydd y gwaith adeiladu arfaethedig yn yr haf wedi'i gwblhau, gellir symud dodrefn ac adnoddau i'w mannau priodol. Bydd angen adolygu yr holl bolisïau iechyd a diogelwch a'u hailysgrifennu o bosibl, er mwyn ystyried ffyrdd newydd o symud o amgylch yr adeiladau. Bydd angen i bob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r holl newidiadau hyn, er enghraifft er mwyn sicrhau trefniadau diogel i adael yr adeilad. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cymryd o leiaf wythnos i mewn i'r tymor newydd ym mis Medi.

**Byddwn yn ailagor i ddisgyblion ddydd Mawrth 9 Medi 2025.**

Fel yr ydym yn sicr y gallwch ddychmygu, mae symud lleoliadau ysgol a sicrhau bod pawb sy'n gweithio ac yn dysgu ynddynt yn ddiogel yn dasg enfawr iawn, yn enwedig pan fydd yn cynnwys cydweithio a chydweithredu rhwng y pedwar tîm ysgol, yr Awdurdod Lleol a'r contractwyr adeiladu amrywiol. Os bydd ein sefyllfa yn newid oherwydd newidiadau neu oedi yn y gwaith iechyd a diogelwch, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl. Rydym yn rhagweld y byddai unrhyw newidiadau ychwanegol i'r amserlenni hyn yn berthnasol i safle penodol ac yn annhebygol o effeithio ar bob un o'n hysgolion ar yr un pryd.

Yn gywir,

<table>
<tr><td colspan="2">P Shipton-Jones</td><td>A Cuthbert</td><td>G Lloyd</td></tr>
<tr><td>Pennaeth Dros Dro<br>Ysgol Gynradd<br>Allensbank</td><td>Pennaeth<br>Ysgol Gynradd<br>Gladstone</td><td>Pennaeth<br>Ysgol Gynradd yr<br>Eglwys yng Nghymru y<br>Santes Monica</td><td>Pennaeth<br>Ysgol Mynydd Bychan</td></tr>
<tr><td>A Bolton<br>Cadeirydd y<br>Llywodraethwyr</td><td>S Crosbie<br>Cadeirydd y<br>Llywodraethwyr</td><td>C Prosser<br>C Prosser<br>Cadeirydd y<br>Llywodraethwyr</td><td>J Williams<br>Cadeirydd y<br>Llywodraethwyr</td></tr>
<tr><td colspan="2">C Weaver<br>Cadeirydd Llywodraethwyr Dros Dro yr ysgol newydd</td><td></td><td></td></tr>
</table>